



## **NODIADAU CANLLAW AR GWBLHAU'R FFURFLEN GAIS**

Cymerwch ofal mawr wrth gwblhau'r ffurflen gais, caiff penderfyniad y panel i'ch gosod ar y rhestr fer ar gyfer cyfweiliad ei seilio'n llwyr ar y wybodaeth yr ydych yn ei ddarparu.

Mae gan bob un o'n swyddi Ddatganiad Cyfraniad, mae hwn yn ddisgrifiad swydd sy'n rhestru'r cyfrifoldebau penodol i swydd angenrheidiol. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ei ddarllen cyn cwblhau'r ffurflen gais.

Rydym yn croesawu ceisiadau am swyddi yn y Gymraeg a'r Saesneg, ni fydd ceisiadau Cymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na cheisiadau Saesneg.

Oni bai eich bod yn arddangos yn blaen yn eich ffurflen gais sut yr ydych yn cyflawni'r holl gyfrifoldebau penodol i swydd a restrir, mae'n bosibl na chewch eich gosod ar y rhestr fer.

Os nad oes digon o le ar y ffurflen gais ichi nodi eich gwybodaeth, cofiwch barhau â'ch ateb ar dudalen ychwanegol gan nodi'n glir i ba gwestiwn y mae'r wybodaeth yma'n perthyn.

Cedwir yr holl wybodaeth y byddwch yn ei ddarparu'n gwbl gyfrinachol.

### **- TUDALEN 1 -**

#### **Y Swydd yr ydych yn ymgeisio amdani**

Nodwch yn glir ar y ffurflen gais deitl a rhif y swydd yr ydych yn ymgeisio amdani, cewch hyd i'r manylion ar y Datganiad Cyfraniad. Os na fyddwch yn nodi hyn mae'n bosibl na chaiff eich cais ei ystyried.

#### **Ymgeisio am waith Rhan Amser neu Rannu Swydd**

Rydym yn croesawu ceisiadau gan unigolion sydd am weithio'n rhan amser neu fel rhan o dîm sy'n cyd-gyfrannu i gwblhau dyletswyddau ein swyddi llawn amser. Os byddwch angen cyngor ar sut i ymgeisio ar sail rhannu swydd, cysylltwch â'r rheolwr sy'n recriwtio, fel y nodir ar y Datganiad Cyfraniad.

### **- TUDALEN 2 -**

#### **Cyflogaeth**

Dylai'r adran yma restru pob swydd flaenorol dros y pum mlynedd diwethaf, gan ddechrau gyda'r un ddiweddaraf. Nodwch fanylion cryno gofynion y swydd honno a pham y gwnaethoch adael.

Dylech gynnwys unrhyw swyddi dros-dro, rhan amser neu hunangyflogedig. Cofiwch restru unrhyw waith gwirfoddol neu ddi-dâl yr ydych wedi ei wneud ac unrhyw gyfnod o ddiweithdra.

## – TUDALEN 3 –

### Pa Mor Dda Yr Ydych yn Ateb Ein Gofynion

Adrannau allweddol y ffurflen yw tudalennau 3 i 6. Mae'r rhain yn gofyn ichi gyflwyno tystiolaeth inni eich bod yn meddu ar y sgiliau a'r doniau angenrheidiol ar gyfer y swydd.

### Trwydded Yrru

Yn aml, bydd meddu ar drwydded yrru gyfredol, lawn y DU/UE yn ofyniad ar gyfer y mwyafrif o swyddi CNC. Bydd angen ichi ddangos eich trwydded os dewch am gyfweiliad.

### Sgiliau Cyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg

Fel mudiad dwyieithog rydym yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn ein gwaith. Rydym wedi ymrwmo i ddarparu gwasanaeth dwyieithog, yn Gymraeg a'r Saesneg, i'r cyhoedd. Mae rhai swyddi ble y bydd dwyieithrwydd yn hanfodol, yn dibynnu ar y lleoliad a lefel y cyswllt â'r cyhoedd. Bydd y Datganiad Cyfraniad yn nodi gofynion iaith y swydd yr ydych yn ymgeisio amdani.

### Dewis Iaith ar gyfer Cyfweiliad

Fel mudiad dwyieithog byddwn yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn ein gwaith.

Os dewiswch gael eich cyfweld trwy gyfrwng y Gymraeg fe wnawn ddarparu panel cyfweld dwyieithog. Cynhelir rhan o'r cyfweiliad yn Saesneg fel y gallwn brofi eich Saesneg llafar.

Os dewiswch gael eich cyfweld trwy gyfrwng y Saesneg am swydd ble y mae sgiliau iaith Gymraeg yn hanfodol, cynhelir rhan o'r cyfweiliad yn Gymraeg fel y gallwn brofi eich Cymraeg llafar.

## - TUDALENNAU 4, 5, 6 & 7 -

### Cyfrifoldebau

Mae'r adran yma'n rhoi cyfle ichi ddangos sut mae eich doniau'n cydberthyn i'r Datganiad Cyfraniad, trwy nodi enghreifftiau penodol fel tystiolaeth.

Dylech gyfeirio at adran **Cyfrifoldebau** y Datganiad Cyfraniad. Mae hwn yn nodi rhestr o ddoniau y bydd angen i ddeilydd y swydd feddu arnynt er mwyn cyflawni'r rôl. Caiff y rhain eu categoreiddio fel: Pennu cyfeiriad, Cyflwyno canlyniadau, Meithrin perthnasoedd, Sicrhau llywodraethu effeithlon a Datblygu pobl a thimau.

### Meini Prawf Penodol i'r Swydd

Dylech gyfeirio at adran **Meini Prawf Penodol i'r Swydd** y Datganiad Cyfraniad. Rhestrir rhwng 1 a 6 criteria ar y Datganiad Cyfraniad, bydd rhai yn hanfodol a gall rhai eraill fod yn ddymunol.

Bydd y panel dethol yn chwilio am dystiolaeth eich bod yn gallu cyflawni'r **Cyfrifoldebau a'r Meini Prawf Penodol i'r Swydd**. Yn wahanol i CVs, mae ein ffurflenni cais yn gofyn ichi ganolbwyntio'n uniongyrchol ar y rhain. Oni bai eich bod yn arddangos yn gwbl glir yn eich ffurflen gais eich bod yn ateb yr holl ofynion a restrir ar gyfer y swydd, mae'n bosibl na chewch eich gosod ar y rhestr fer.

Gallai'r math o dystiolaeth y dylech ei ddarparu gynnwys y canlynol:

- Mae'r gwaith yn eich swydd bresennol, neu flaenorol, yn gofyn ichi arddangos y ddawn honno
- Rydych yn ymgymryd â gweithgaredd y tu allan i'r gwaith sy'n galw arnoch i arddangos y ddawn honno
- Mae eich gwaith gwirfoddol neu elusennol yn gofyn ichi arddangos y ddawn honno
- Rydych wedi cwblhau cyrsiau hyfforddiant i'ch hyfforddi yn y ddawn honno
- Rydych yn meddu ar gymhwyster addysgol neu broffesiynol sy'n dangos eich bod yn meddu ar y ddawn honno
- Rydych yn perthyn i gymdeithas neu gorff proffesiynol sy'n dangos eich bod yn meddu ar y ddawn honno

Gallwch ddefnyddio eich tystiolaeth fwy nag unwaith os yw'n cwmpasu mwy nag un ddawn. Gallwch dynnu ar dystiolaeth o unrhyw ffynhonnell, nid dim ond y gweithle, os gallwch arddangos yn gwbl glir ei fod yn bodloni'r ddawn sy'n ofynnol. [Ceisiwch gyflwyno enghreifftiau penodol ac osgoi cyffredinoli.](#)

**Dylech gyfyngu eich tystiolaeth ar gyfer pob Cyfrifoldeb Penodol i Swydd i 200 o eiriau, ble bynnag y bo modd.**

## – TUDALEN 8 –

### **Ble Wnaethoch Chi Glywed am y Swydd Yma**

Er mwyn sicrhau bod ein dulliau recriwtio cyfredol yn effeithiol, byddwn yn monitro ble y byddwn yn hysbysebu. Dywedwch ble y clywoch am y swydd wag yr ydych yn ymgeisio amdani trwy nodi ar ba wefan neu ym mha bapur newydd y gweloch yr hysbyseb.

### **Geirda**

Byddwn ond yn gwneud cais am eirda ar ôl y cyfweiliad a dim ond os mai chi yw'r ymgeisydd a ffefrir.

## - TUDALEN 9 -

### Anabledd

Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 rydym yn ymdrechu i wneud addasiadau rhesymol ble y bydd person anabl yn dioddef anfantais sylweddol oherwydd y trefniadau gweithio neu'r amgylchedd gwaith.

Ni fydd y cyfrifoldeb i wneud addasiadau rhesymol yn gymwys, oni bai ein bod yn gwybod bod gennych anabledd. Dyma'r adran ble y gallwch roi gwybod inni.

### 'Symbol Anabledd y Tic Dwbl'

Trwy ddefnyddio'r symbol yma, rydym wedi cytuno y byddwn yn:

- cyfweld pob ymgeisydd sydd ag anabledd os ydynt yn bodloni gofynion hanfodol y swydd

Defnyddiwch yr adran yma os ydych am ymgeisio o dan y cynllun hwn. Byddwn yn gwarantu cyfweliad ichi os ydych yn bodloni'r gofynion hanfodol a gytunwyd gan y panel cyn tynnu'r rhestr fer.

## - TUDALENNAU 10, 11 & 12 -

### Cyfleoedd Cyfartal

Mae CNC yn anelu i adlewyrchu amrywiaeth Cymru a'i phobl. Rydym yn gweithio'n galed i greu'r math o amgylchedd a diwylliant gwaith sy'n cydnabod a gwerthfawrogi gwahaniaethau pobl.

Ym mhob un o'n penderfyniadau recriwtio, byddwn yn ceisio bod yn wrthrychol, yn ddiragfarn, ac i ddethol ymgeiswyr ar sail eu gallu'n unig. Os ydynt yn meddu ar y doniau angenrheidiol, mae gan bawb sy'n chwilio am swydd gyda CNC gyfle cyfartal.

Yn yr adran hon byddwn yn gofyn ichi ateb rhai cwestiynau gweddol bersonol. Rydym yn gwneud hyn er mwyn sicrhau bod ein polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth yn gweithio'n ymarferol wrth recriwtio staff. Byddwn yn llwytho'r data ar ein cronfa ddata, ble y caiff ei storio'n gyfrinachol. Ni fyddwn yn ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall nac yn ei ddatgelu i unrhyw fudiad arall. Ni fydd y wybodaeth yma ar gael i'r panel dethol.

Er bod nodi'r wybodaeth yma'n fater cwbl wirfoddol, rydym yn gofyn ichi ein helpu trwy roi eich manylion inni. Os byddwch yn gadael unrhyw flwch yn wag, byddwn yn cofnodi bod yn well gennych beidio â dweud.

## DYCHWELYD FFURFLENNI CAIS

Cofiwch ddychwelyd neu e-bostio eich ffurflen gais wedi ei chwblhau at yr enw cyswllt a'r cyfeiriad ar y Datganiad Cyfraniad erbyn y dyddiad cau penodedig, gan nodi rhif y swydd fel cyfeirnod.

## CYDNABOD DERBYN Y CAIS

Ni fyddwn yn cydnabod derbyn ceisiadau fel arfer, ond mae croeso ichi ffonio'r tîm recriwtio i wneud yn siŵr ein bod wedi derbyn eich ffurflen gais os ydych yn bryderus.

## AMSERLEN AR GYFER RECRIWTIO

Byddwn yn hysbysu pob ymgeisydd sydd ar y rhestr cyfweliadau. Fel arfer, bydd hyn yn digwydd rhwng un a phedair wythnos wedi'r dyddiad cau. Os oes nifer fawr o ymgeiswyr am swydd yn sgorio'n uchel, mae'n bosibl na chewch eich gwahodd am gyfweliad hyd yn oed os ydych wedi arddangos yr holl ddoniau angenrheidiol ar eich ffurflen gais.

## CYSYLLTU Â NI

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am eich cais neu'r broses recriwtio, cysylltwch â'r tîm recriwtio:

e-bost	<a href="mailto:recruitment@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk">recruitment@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk</a>
rhif ffôn	03000654040
cyfeiriad	Recriwtio, Cyfoeth Naturiol Cymru, Maes y Ffynnon, Ffordd Penrhos. Bangor. LL57 2DW